Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Adroddiad Cyllid Interim Diwedd y Flwyddyn 2015/16 |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 25.16 |
| **Paratowyd y papur gan:** | Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Nodi'r canlynol:<br>• y sefyllfa ariannol ***ddangosol*** ar gyfer 2015-16;<br>• yr amserlenni ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16;<br>• y wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith bosibl ar y Gyllideb ar gyfer 2016-17. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn ariannol gyfredol, ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer yr hirdymor.<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| | **Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn nodi risgiau a'r camau gweithredu a gymerir i leihau'r risgiau hynny. |

## <u>Mater</u>

1. Dylai'r Bwrdd nodi y bydd y Tîm Gweithredol yn ystyried ein perfformiad ariannol ar gyfer 2015-16 a sefyllfa'r Gyllideb ar gyfer 2016-17 ac y byddwn yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol i'r Bwrdd ynghylch y ddau fater ym mis Gorffennaf.

2. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf a mis Medi.

3. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

## <u>Cefndir</u>

4. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol **ar gyfer 2015-16**. Rydym yn dal i ***gadarnhau*** y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd yn destun gwaith archwilio allanol.

5. Rydym yn symud yn ein blaen yn unol â'r amserlen ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16. Bydd y ddogfen yn dilyn fformat ychydig yn wahanol eleni, a fydd o fantais i'r darllenwyr, a bydd yn cael ei llunio'n unol â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys.

6. Ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r Gyllideb Agoriadol ar gyfer 2016-17 ym mis Mawrth, rydym wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'n sefyllfa o ran cyllid eleni (roeddem yn disgwyl £14 miliwn ychwanegol o Gymorth Grant ond cawsom £12.3 miliwn). Bydd hynny, ynghyd â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, yn effeithio ar ein Cyllideb ar gyfer 2016-17. Mae'r papur hwn yn tynnu eich sylw at rai o'r newidiadau hynny, a bydd yn gofyn am gadarnhad ffurfiol ynghylch y Gyllideb Ddiwygiedig ym mis Gorffennaf pan fydd y Tîm Gweithredol wedi gorffen ystyried y sefyllfa derfynol ar gyfer 2015-16.

7. Cafodd ein Cynllun Codi Tâl yng nghyswllt rheoleiddio ar gyfer 2016-17 ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth.

**Asesiad**

**Diweddariad interim ynghylch perfformiad ariannol ar gyfer 2015-16**

8. Mae'r sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn (2015-16) fel a ganlyn:

- Rydym wedi cael y Cymorth Grant ychwanegol i'w ddefnyddio i ymdopi â phwysau yn 2016-17 (£12.3 miliwn).

- Rydym yn disgwyl y bydd incwm (heb gynnwys Cymorth Grant) oddeutu £2.2 filiwn yn fwy na'r hyn a ragwelwyd ym mis Chwefror. Mae'r sefyllfa hon yn ardderchog, ac mae wedi codi'n bennaf oherwydd bod incwm o bren wedi rhagori ar yr hyn a nodwyd yn y gyllideb, yn rhannol oherwydd gwerthiant ychwanegol (a arweiniodd at rywfaint o gostau gwerthu ychwanegol) ac amodau cadarnhaol yn y farchnad. Yn ogystal, mae incwm o daliadau wedi rhagori ar yr hyn a ragwelwyd ac mae'r arian hwnnw'n cael ei 'neilltuo' ar gyfer y cynlluniau codi tâl penodol.

- Bu i ni benderfynu talu £1.5 miliwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ym mis Mawrth er mwyn clirio rhan o'r diffyg o ran pensiwn y byddem wedi gorfod ei dalu ym mlwyddyn ariannol 2016-17. Yn gwrthbwyso hynny y mae gostyngiad o £1.3 miliwn yn y sefyllfa ddisgwyliedig o ran gwariant refeniw.

- Roeddem yn disgwyl y byddai rhwng £16 miliwn ac £17 miliwn yn cael ei wario ar y Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Mae'n debygol y bydd gwariant mewn gwirionedd yn agosach i £16.7 miliwn.

- Felly, rydym yn disgwyl i ragor o gyllid fod ar gael yn 2016-17 o ganlyniad i berfformiad cyllidebol yn 2015-16, yn bennaf oherwydd ein sefyllfa o ran incwm ar ddiwedd y flwyddyn a'n gallu i ddwyn arian ymlaen.

Caiff hynny ei ddangos yn y tabl isod:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| Year End Position - 2016-17 | Income | Expenditure | Balance |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| **Forecast position at February 2016** | **190.9** | **181.8** | **9.1** |
| Additional Grant in Aid from Welsh Government | 12.3 | | 12.3 |
| Additional Income | 2.2 | | 2.2 |
| Directorate Expenditure Performance | | -1.3 | 1.3 |
| Payment to Pension Fund | | 1.5 | -1.5 |
| **Year End Position** | **205.4** | **182.0** | **23.4** |

Text for table
Year end position – Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn – 2016-17
Income – Incwm
Expenditure – Gwariant
Balance – Gweddill
Forecast position... – Y sefyllfa a ragwelwyd ym mis Chwefror 2016
Additional Grant in Aid... – Cymorth Grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
Additional income – Incwm ychwanegol
Directorate expenditure performance – Perfformiad cyfarwyddiaethau o ran gwariant
Payment to Pension Fund – Taliad i'r Gronfa Bensiwn
Year end position – Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

## Amserlen ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16

9. Rydym yn symud yn ein blaen yn unol â'r cynllun ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16. Dyma'r prif bwyntiau yn yr amserlen ar gyfer llunio'r Adroddiad a'r Cyfrifon:

- Llunio fersiwn derfynol yr Adroddiad Drafft a ffigurau'r Cyfrifon – Mai 2016;
- Gwaith archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru – Mehefin 2016;
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i adolygu'r Cyfrifon Blynyddol dros dro a'r sefyllfa ariannol sylfaenol – Mehefin 2016;
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Cadeirydd i'w llofnodi – Gorffennaf 2016;

- Tystysgrif Archwilio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cael ei llofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – Gorffennaf 2016.

**Diweddariad ynghylch y Gyllideb ar gyfer 2016-17**

10. Ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17, cafwyd sawl newid y bydd angen eu hymgorffori yn y Gyllideb Ddiwygiedig ar gyfer eleni. Bydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod ym mis Mai i ystyried y newidiadau hynny'n ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r Gyllideb. Mae'r prif feysydd lle bydd newidiadau'n digwydd wedi'u nodi isod:

    - Roedd cais Buddsoddi i Arbed am gyllid gan Lywodraeth Cymru i redeg Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn llwyddiannus (£3.75 miliwn).
    - Cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd yn parhau i ariannu'r Rhaglen Seilwaith a Gwella Hawliau Tramwy a'r Rhaglen Taclo Tipio Cymru (£1 filiwn i'r naill a £0.2 miliwn i'r llall).
    - Roeddem wedi cynnwys £2 filiwn dros dro o gyllid cyfalaf, nad oedd yn ymwneud â llifogydd, gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'i hadolygiad diwedd blwyddyn ond nid yw'r arian hwnnw wedi ymddangos. Cawsom £0.25 miliwn yn ychwanegol o Gymorth Grant Refeniw ar gyfer Llifogydd (cynyddodd y swm o £0.5 miliwn i £0.75 miliwn).
    - Sut i ddyrannu unrhyw arian ychwanegol sy'n weddill yn yr arian a gaiff ei ddwyn ymlaen yn y Gyllideb ar gyfer eleni (am resymau a esbonnir ym mharagraff 6 uchod).

**Argymhelliad/Argymhellion**

11. Dylai'r Bwrdd nodi:
    - Y sefyllfa ariannol ddangosol ar gyfer 2015-2016.
    - Yr amserlenni ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16.
    - Y wybodaeth ddiweddaraf am effaith y Gyllideb ar gyfer 2016-17.

**Prif risgiau**

12. Fel yr esboniwyd uchod, rydym yn dal i gadarnhau'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd yn destun gwaith archwilio allanol. Nid ydym yn disgwyl unrhyw newid mawr i'r sefyllfa a amlinellir ym mharagraff 8 a byddwn yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Papur y Bwrdd

13. Bydd y gostyngiad o £2 filiwn yn y cyllid a geir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfalaf nad yw'n ymwneud â llifogydd yn cael effaith. Roedd y gyllideb wedi'i dyrannu i eitemau megis parhau i drawsnewid TGCh, a Rhodfa'r Goedwig Cwm-carn. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gallai cyllid ddod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond bydd y Tîm Gweithredol yn penderfynu a ddylid lleihau rhywfaint o'r effaith hon yn awr ar sail ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

## Goblygiadau ariannol

14. Yr unig oblygiad ariannol sy'n gysylltiedig â llunio'r adroddiad ynghylch perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn, cyllidebau wedi'u diweddaru, yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes, ar wahân i amser staff, yw'r ffi archwilio allanol.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

15. Nid oes angen asesiad.

## Mynegai i'r Atodiadau

Dim